# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2323 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 22/10/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Andrea Prosser (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5415 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu |

| | |
|---|---|
| | ar y pryd. |

| Item ID | 5416 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, J.P. Morgan.<br><br>Prif Swyddog Adnoddau<br>Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid |

| Item ID | 5417 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 5418 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Medi 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 5463 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 5482 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu a gyfeiriwyd o'r Cydbwyllgor Craffu Cyllideb ar 27 Medi 2021.<br><br>Soniodd Aelod am yr ansawdd sain gwael yn Ystafell Abraham Derby yn y Swyddfeydd Cyffredinol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n tynnu sylw uwch swyddogion at hyn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5483 |
| Item Title | Archwilio Cymru – Asesiad Cynaliadwyedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau sy'n cyflwyno canlyniad yr asesiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ynghylch cynaliadwyedd ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.<br><br>Siaradodd swyddog Archwilio Cymru am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. Hysbysodd Aelodau fod yr adroddiad yn nodi canfyddiadau eu hadolygiad o gynaliadwyedd ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae'n ddarn o waith a gynhaliwyd gyda phob Cyngor ledled Cymru i edrych ar gynaliadwyedd ariannol a llywodraeth leol, yn neilltuol yng nghyd-destun pandemig COVID.<br><br>Dywedodd Aelod y bu'r rhain yn flynyddoedd ariannol da i'r Awdurdod oherwydd setliadau da gan Lywodraeth Cymru. Roedd cyllid caledi wedi helpu i roi'r Cyngor mewn sefyllfa dda ond teimlai y gallai hyn fod yn sefyllfa ffals oherwydd nad yw'r rhaglen Pontio'r Bwlch wedi ei phrofi gan nad yw Aelodau wedi gweld canlyniadau blwyddyn lawn oherwydd y pandemig. Teimlai fod angen cadw mater hylifedd mewn cof a bod angen i'r Awdurdod fod yn ofalus yng nghyswllt gormod o fenthyca. Dywedodd ei fod yn adroddiad da ond bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi cael effaith fawr arno a chanmolodd waith da y tîm ariannol.<br><br>Cytunodd Aelod arall ei fod yn adroddiad da ond roedd ganddo bryderon am ddefnydd y cyllid caledi a theimlai y dylid bod wedi defnyddio peth o'r cyllid hwn i helpu cymunedau gyda CCTV a materion diogelwch cyhoeddus. Teimlai y dylid bod wedi rhoi llai o arian mewn cronfeydd wrth gefn a mwy i wasanaethau CCTV i gadw cymunedau'n ddiogel drwy gydol misoedd y gaeaf.<br><br>Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y cyflwynir adroddiad ar CCTV i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yn y dyfodol i gael ei ystyried.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifeg mai grant yw'r gronfa caledi gyda thelerau ac amodau ac nad yw CCTV a Diogelwch y Gymuned yn rhan o'r telerau ac amodau hynny. Mae'r holl arian a wariwyd o'r gronfa caledi yn cydymffurfio gyda'r telerau ac amodau hynny ac i gyd am ymateb i'r pandemig. Dywedodd fod peth cyllid o'r gronfa galedi oedd yn mynd i'r gymuned drwy chwyddo tâl salwch statudol a thaliadau gofal cymdeithasol.<br><br>Diolchodd Aelod i'r Swyddfa Archwilio am yr adroddiad cadarnhaol er nad yw effeithiau COVID a amlygir yn yr adroddiad yn hysbys i gyd. Teimlai fod gweithredoedd rhagweithiol y Cyngor wedi ei roi mewn sefyllfa gref iawn i ateb heriau ariannol y dyfodol a gwelai hyn fel cymeradwyaeth gadarnhaol iawn gan y Swyddfa Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y gymhareb cyfalaf gweithio, dywedodd Swyddog Archwilio Cymru nad oes rhif delfrydol y dylai'r |

| | |
|---|---|
| | Awdurdod fod yn anelu ei gyflawni. Mae'n dibynnu ar yr amgylchiadau penodol ym mhob Cyngor a'r dull gweithredu y gallant fod am ei gymryd. Teimlai ei fod am Aelodau yn cael sicrwydd, er fod y ffigur hwn yn isel, bod y Cyngor mewn sefyllfa lle gallai gyflawni ei rwymedigaethau fel a phryd yr oedd angen eu trin. Sonnir yn yr adroddiad fod y Cyngor yn brydlon yn talu ei ddyledion i sicrhau ei fod yn cefnogi'r economi lleol ac roedd hynny, yn y ffordd honno, yn effeithio ar y ffigurau hylifedd. Felly byddai rhai polisïau o'r fath yn cael effaith ac yn gostwng sgôr yr Awdurdod.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 30 paragraff 9 yr adroddiad – mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn derbyn cyfanswm o tua £12.2 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn 2020-21. Caiff hyn ei nodi yn Narluniad 2 islaw. Mae'r cyfanswm yn eithrio cyllid lle mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant, gan ddosbarthu cyllid gan Lywodraeth Cymru i drydydd partïon. Holodd am eglurhad ar drydydd partïon. Eglurodd Swyddog Archwilio Cymru fod hyn yn cyfeirio at arian gan Lywodraeth Cymru a roddwyd i'r Awdurdod i'w ddosbarthu i drydydd partïon tebyg i fusnesau lleol. Ni chaiff yr arian hwn ei gynnwys yn y ffigur gan na all y Cyngor ei gadw ac mae'n gorfod ei ddosbarthu ar ran Llywodraeth Cymru.<br><br>Cymeradwyodd y Cadeirydd sylwadau'r Aelodau a dywedodd ei fod yn adroddiad da ac yn dangos yn glir ymrwymiad ariannol hirdymor yr Awdurdod a bod yr Awdurdod yn symud yn y cyfeiriad cywir. Diolchodd i Swyddog Archwilio Cymru am gyflwyno'r adroddiad ac i'r tîm ariannol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef derbyn canfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru, fel y'u manylir yn yr adroddiad ac yn yr atodiad. |

| Item ID | 5475 |
|---|---|
| Item Title | Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arweinydd Proffesiynol Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg a gyflwynwyd i nodi'r bwriadau ar gyfer datblygu ail Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-27 y Cyngor, yn unol â Safonau'r Gymraeg (2015) (Safon 145).<br><br>Siaradodd yr Arweinydd Proffesiynol Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn y dull gweithredu a gynigir ar gyfer datblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-27. |

| Item ID | 5477 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol i |

| | |
|---|---|
| | graffu ar a herio perfformiad Iechyd Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Tân yn y Gwaith yr Awdurdod ar gyfer 2020/21.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo. Hysbysodd Aelodau fod yr adroddiad hefyd yn cynnwys adran ynghylch ymateb y Cyngor i'r pandemig.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at grynodeb yr adroddiad a holodd am ddamweiniau yn ymwneud â rhai heb fod yn weithwyr cyflogedig a'r gostyngiad yn absenoldeb staff. Esboniodd y Swyddog Iechyd a Diogelwch fod damweiniau yn ymwneud â rhai heb fod yn weithwyr cyflogedig yn cynnwys damweiniau gan ddisgyblion ysgol, aelodau'r cyhoedd yn safleoedd y Cyngor a defnyddwyr gwasanaeth mewn safleoedd Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyfeiriodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol at absenoldeb salwch staff ac esboniodd ei fod wedi gostwng ond nad oedd yn is na'r targed. Maent yn y broses o ddilysu ystadegau salwch yr ail chwarter a rhoddir adroddiad ar y ffigurau hynny drwy'r adroddiad Cyllid a Pherfformiad a chânt eu cyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.<br><br>Yng nghyswllt y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, holodd Aelodau pam nad oedd y data ar gyfer y gwaith gan Gynghorwyr Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Esboniodd y Swyddog Iechyd Diogelwch mai adroddiad blynyddol ar gyfer y Cyngor fel cyflogwr yw hyn; mae'r Ymddiriedolaeth Hamdden yn gyflogwr ar wahân ac felly ni chaiff eu data ei gynnwys yn yr adroddiad.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am Ffigur 1 ar dudalen 131 – y tueddiad 3 blynedd ar gyfer damweiniau gweithwyr cyflogedig yn yr Awdurdod yn ôl adran, dywedodd y Swyddog Iechyd a Diogelwch fod y gostyngiad sylweddol yn nifer y damweiniau yn yr Adran Addysg ar gyfer 2020/21 oherwydd bod ysgolion ar gau am gyfnod sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol honno.<br><br>Nododd Aelod fod nifer y damweiniau yn Adran yr Amgylchedd wedi gostwng er fod yr Adran wedi parhau i weithio fel arfer drwy gydol y pandemig. Dywedodd y Swyddog Iechyd a Diogelwch nad oedd tueddiad yn amlwg ynghylch y gostyngiad, fodd bynnag mae'n ganlyniad cadarnhaol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yn cefnogi'r adolygiad blynyddol o berfformiad Iechyd a Diogelwch a pherfformiad Diogelwch Tân a'r argymhellion a wnaed. |

| Item ID | 5478 |
|---|---|
| Item Title | Diweddariad ar Gynlluniau Adsefydlu yn y Deyrnas Unedig a Gwasgaru Ceiswyr Lloches |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid |

| | |
|---|---|
| | a gyflwynir i roi diweddariad ar gyfranogiad yn cefnogi cynllun Ailsefydlu y Deyrnas Unedig (sydd yn ddiweddar wedi cynnwys cefnogi adsefydlu dinasyddion Afghan) a cheisio cefnogaeth ar gyfer cymryd rhan yng Nghynllun Ehangu Gwasgaru Ceiswyr Lloches y Swyddfa Gartref a gyflwynir i'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Siaradodd y Cydlynydd Cydlyniaeth Cymunedol am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo. Mae'r adroddiad yn amlinellu bod y pwysau ar y system lloches wedi bod yn cynyddu'n gyson ers blynyddoedd. Gyda chynnydd yn nifer y ceiswyr lloches sydd angen eu lletya'n genedlaethol, bu pwysau ychwanegol ar yr ardal gwasgaru presennol ac mewn ymateb mae'r Swyddfa Gartref wedi rhoi blaenoriaeth i ehangu ardaloedd gwasgaru ac yn awyddus i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn cefnogi'r adroddiad a dywedodd fod y teuluoedd o Syria oedd wedi adsefydlu yn ei ward yn ychwanegiad gwych i'r gymuned.<br><br>Ychwanegodd Aelod arall ei fod wedi ymwneud â'r rhaglen adsefydlu ar gyfer ffoaduriaid o Syria a theimlai iddo fod yn llwyddiant. Llongyfarchodd y swyddogion ar y gwaith a wnaed a chefnogai'r adroddiad.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yn:-<br><br>i. Nodi'r cynnydd a wnaed mewn cyfranogiad gydag adsefydlu yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys yn fwyaf diweddar y rhaglen ailsefydlu Afghan; ac yn<br>ii. Cefnogi'r cynnig i gymryd rhan yng Nghynllun Ehangu Gwasgariad Ceiswyr Lloches, cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol. |

| Item ID | 5479 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 3 Rhagfyr 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar gyfer y cyfarfod ar 3 Rhagfyr 2021. |